## ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 9)

## COSBAU PENODEDIG

*Cynnwys hysbysiad cosb penodedig*

1 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—
- (a) datgan y drosedd honedig, a
- (b) rhoi manylion am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd.

2 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd ddatgan—
- (a) enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol y rhoddir yr hysbysiad ar ei ran;
- (b) swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer ei thalu;
- (c) y swm gostyngol a'r cyfnod ar gyfer ei dalu;
- (d) effaith talu'r gosb neu'r swm gostyngol cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (b) neu (c);
- (e) canlyniadau peidio â thalu'r gosb neu'r swm gostyngol cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (b) neu (c);
- (f) y person y caniateir i'r taliad gael ei wneud iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir i'r taliad gael ei wneud;
- (g) y dull y caniateir i'r taliad gael ei wneud ynddo;
- (h) y person y caniateir i unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad gael eu cyflwyno iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir i unrhyw sylwadau o'r fath gael eu cyflwyno.

3 Rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd—
- (a) hysbysu'r person y'i rhoddir iddo am hawl y person hwnnw i ofyn am gael sefyll prawf am y drosedd honedig, a
- (b) esbonio sut y caniateir i'r hawl honno gael ei harfer.

4 Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach o ran cynnwys a ffurf hysbysiad cosb benodedig.

*Swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer ei thalu*

5 (1) Swm y gosb yw £200.

(2) Caiff rheoliadau ddiwygio swm y gosb.

6 Y cyfnod ar gyfer talu'r gosb yw'r cyfnod o 29 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

*Y swm gostyngol a'r cyfnod ar gyfer ei dalu*

7 (1) Mae'r swm gostyngol yn daladwy, yn lle swm y gosb, os gwneir taliad cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r swm gostyngol.

(2) Y cyfnod hwnnw yw'r cyfnod o 15 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad, oni bai nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith.

(3) Os nad yw'r 15fed diwrnod yn ddiwrnod gwaith, y cyfnod hwnnw yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad ac sy'n dod i ben pan ddaw'r diwrnod gwaith cyntaf yn dilyn y 15fed diwrnod i ben.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith nac yn ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (Banking and Financial Dealings Act 1971 (c. 80)).

8 Y swm gostyngol yw £150.

9 Caiff rheoliadau ddiwygio'r swm gostyngol.

*Effaith hysbysiad a thalu*

10 (1) Ni chaniateir i achos am y drosedd y rhoddwyd hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â hi gael ei ddwyn cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r person y rhoddwyd yr hysbysiad iddo wedi gofyn yn unol â pharagraffau 15 ac 16 am gael sefyll prawf am y drosedd honedig.

11 Os telir y gosb yn unol â'r hysbysiad cosb cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 10(1), ni chaniateir i achos am y drosedd gael ei ddwyn, ac nid yw paragraff 15 yn gymwys.

12 Os telir y swm gostyngol yn unol â'r hysbysiad cosb cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r swm gostyngol, ni chaniateir i achos am y drosedd gael ei ddwyn, ac nid yw paragraff 15 yn gymwys.

13 Os yw achos wedi ei ddwyn yn unol â chais o dan baragraff 15, ond yna telir y gosb neu'r swm gostyngol fel y'i crybwyllir ym mharagraff 11 neu 12, rhaid peidio â pharhau â'r achos hwnnw.

14 Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif sy'n dogfennu taliad o gosb neu swm gostyngol yn dystiolaeth o'r ffeithiau y mae'n eu datgan—

(a) os yw'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan y person sy'n gyfrifol am faterion ariannol yr awdurdod lleol yr oedd y swyddog awdurdodedig a roddodd hysbysiad cosb yn gweithredu ar ei ran, neu ei bod wedi ei llofnodi ar ran y person hwnnw, a

(b) os yw'n datgan bod taliad o'r gosb benodedig neu'r swm gostyngol yn unol â'r hysbysiad wedi ei gael, neu nad oedd wedi ei gael, erbyn dyddiad a bennir yn y dystysgrif.

*Treial*

15 Os yw'r person y mae hysbysiad cosb wedi ei roi iddo yn gofyn am gael sefyll prawf am y drosedd honedig, caniateir i achos gael ei ddwyn yn erbyn y person.

16 Rhaid i unrhyw gais i sefyll prawf gael ei wneud—

(a) drwy hysbysiad a roddir i'r awdurdod lleol o dan sylw cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(b) yn y modd a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig.

*Tynnu hysbysiadau yn ôl*

17 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw awdurdod lleol yn ystyried na ddylai hysbysiad cosb benodedig y mae swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ei ran wedi ei roi i berson ("P") fod wedi ei roi.

(2) Caiff yr awdurdod lleol roi hysbysiad i P sy’n tynnu’r hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

(3) Os yw’n gwneud hynny—

(a) rhaid iddo ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu ar ffurf cosb yn unol â’r hysbysiad cosb benodedig, a

(b) ni chaniateir dwyn achos na pharhau ag achos yn erbyn P am y drosedd o dan sylw.

*Derbyniadau cosb benodedig*

18 Ni chaiff awdurdod lleol ddefnyddio’r symiau y mae’n eu cael yn unol â hysbysiadau o dan adran 9 ond at ddiben ei swyddogaethau sy’n ymwneud â gorfodi darpariaethau’r Ddeddf hon a rheoliadau a wneir odani.